



## Adroddiad Blynyddol Y Corff Llywodraethol 2017-18

Dyma grynodeb o'r adroddiad llawn. Croeso i chi gael copi o'r adroddiad llawn drwy'r ysgol.

### AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHU

<b>Aelod</b>	<b>Cynrychioli</b>	<b>Tymor gwasanaeth</b>
Mr James Evans (Cadeirydd)	Cyfethol	2015-2019
Mr Ian Goronwy Williams (Is-Gadeirydd)	AALI	2016-2020
Mr Carwyn Evans	Rhieni	2014-2018
Ms Helen Whitney	Rhieni	2015-2019
Ms Alaw Ceris	Rhieni	2017-2021
Dr Greta Hughes	Cyngor Cymuned	2017-2021
Ms Falmai Squires	Cyfetholedig	2017-2021
Cyng. Angela Russell	AALI	2017-2021
Mrs Gwyneth Lloyd Jones	Athrawon	2015-2019
Mrs Manon Haf Owen	Pennaeth	

**Cadeirydd:** Mr James Evans, Llanbedrog (740312)

**Clerc:** Mr Iwan Hughes, Derlwyn, Llanbedrog (740196)

### **Swyddogaethau'r Llywodraethwyr**

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r hyn sydd yn digwydd ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r cyfrifoldebau wedi cynyddu'n sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Rhaid i'r corff gyfarfod o leiaf unwaith y tymor, ond yn aml mae yn digwydd ddwywaith y tymor.

Adroddodd y pennaeth yn dymhorol ar gyrhaeddiadau disgyblion a phresenoldeb, materion Cwricwlaid a chanlyniadau, anghenion arbennig, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, amrywiol weithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

Mae'r corff wedi ei rannu yn is-baneli sydd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Yn Ysgol Llanbedrog mae gennym is-baneli Disgyblu a Diswyddo Staff, Apel Disgyblu a Diswyddo Staff, Disgyblu a Gwahardd Disgyblion, Cwntion, Adolygu Tâl.

Ms Falmai Squires oedd llywodraethwr dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mr Carwyn Evans oedd y llywodraethwr dynodedig Amddiffyn Plant.

Gallwch gael gwybodaeth bellach am y gyllideb neu weld cofnodion yr holl gyfarfodydd drwy ofyn i'r Clerc.

Cynhelir etholiadau i ethol rhiant-lywodraethwr newydd pan ddaw'r cyfnodau uchod i ben. Bydd yr etholiadau nesaf yn nhymor yr Hydref 2018 a 2019.

### **Dyddiadau Cyfarfodydd**

Bu i'r Corff Llawn gyfarfod ar 3/10/17, 7/12/18, 25/1/18, 22/3/18, 26/4/18, 12/7/18.

Yn ogystal â hyn cynhaliwyd cyfarfodydd o'r gwahanol banelau.

### **Adroddiad ar weithredu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hydref 2017**

Ni chynhaliwyd cyfarfod gan na ofynwyd am gyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan y rhieni.

### **Polisiau a Strategaethau**

Adolygwyd nifer o bolisiau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r holl bolisiau ar gael yn yr ysgol ac amryw ar wefan yr ysgol.

## DYDDIADAU'R TYMHORAU 2017-18

### Hydref 2017

**Dechrau:** Dydd Gwener Medi 1

**Hanner tymor:** Dydd Llun 30 Hydref - ddydd Gwener 3 Tachwedd

**Gorffen:** Dydd Gwener 22 Rhagfyr

### Gwanwyn 2018

**Dechrau:** Dydd Llun 8 Ionawr

**Hanner tymor:** Dydd Llun 12 Chwefror - ddydd Gwener 16 Chwefror

**Gorffen:** Dydd Gwener 23 Mawrth

### Haf 2018

**Dechrau:** Dydd Llun 9 Ebrill

**Calan Mai (Gŵyl banc):** Dydd Llun 7 Mai

**Hanner tymor:** Dydd Llun 28 Mai - ddydd Gwener 1 Mehefin

**Gorffen:** Dydd Gwener 20 Gorffennaf

Bu 5 diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar 1/9/17, 20/10/17, 6/11/17, 19/2/18, 9/4/18

## DATGANIAD ARIANNOL

Cynhelir cyfarfod o'r Panel Cyllid yn dymhorol ac mae'r llywodraethwyr yn adolygu polisiau yn ymwneud â chyllid yn unol â'r gofynion. Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol.

### \* Gwariant perthnasol o gyfrifol terfynol yr ysgol am 2017-18

Cynnal a Chadw'r Adeilad	£ 2,265
Trydan	£ 2,641
Nwy	£ 1,568
Dwr	£ 1,568
Contract Glanhau	£ 9,700
Cynnal Tiroedd	£ 450
Offer Ymladd Tân	£ 160
Trethi	£ 4,940
Lwfans y Pen (offer, llyfrau ac ati)	£ 15,787
Dodrefn	£ 65
Post	£ 125
Ffôn	£ 342
Pyllau Nofio	£ 3,370
Gwasanaeth Cerdd(gwersi offerynol)	£ 2,406
Cynnal- Cefnogaeth Technoleg	£ 1,180
Arian wrth gefn	£10,796 (ar gyfer diogelu a chynnal staffio)

### \* Costau teithio a Chynhaliaeth Llywodraethwyr- £0

\* **Cronfa'r ysgol:** Hon yw'r gronfa ar gyfer gwariant bob dydd. I'r gronfa hon mae arain teithiau addysgol, tynnu lluniau ac ati yn mynd. Mae cyfanswm yr arian a dderbyniwyd ac a dalwyd ohoni yn sylweddol. Mae'r gronfa yn cael ei harchwilio yn flynyddol gan gyfrifydd allanol, yn unol â'r gofynion ac mae manylion ar gael yn yr ysgol pe dymunir eu gweld. Roedd £1769.88 o arian mewn llaw 1af Ebrill 2018. (Atodiad 1)

\* **Rhoddion i'r ysgol:** Bu'r Cyfeillion yn brysur iawn eto yn casglu arian ar gyfer yr ysgol. Hoffai'r llywodraethwyr ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at eu hymdrechion i gasglu arian. Mae'r ysgol a phob plentyn sydd ynddi wedi elwa yn fawr o'r cyfraniadau hyn. (Atodiad 2).

### PRESENOLDEB YSGOL GYFAN

Presenoldeb	=	95.5%
Absenoldebau gydag awdurdod	=	4.5%
Absenoldebau heb awdurdod	=	0.1%

Targed presenoldeb y llywodraethwyr a Gwynedd oedd 95.5%. Pwysleisiwn yr angen am nodyn neu neges i egluro pob absenoldeb.

Mae'r Llywodraeth yn rhoi pwysau mawr ar bob ysgol i godi presenoldeb ac i ddileu unrhyw absenoldeb di-awdurdod. Mae cofrestr yr ysgol yn cael ei fwydo i system ganolog gan y Cyngor a rhaid i'r ysgol drafod unrhyw bryderon gyda'r Swyddog Lles. Gweithredodd yr ysgol yn unol â'r gofynion.

### GWYBODAETH AM BERFFORMIAD A THARGEDAU

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau asesiadau diwedd blwyddyn 2 a 6 yn Haf 2018 yn yr ysgol ac yn nodi targedau at 2021. Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu y disgyblion oedd ar gamau AAA'r ysgol.

% Cyfnod Sylfaen - Deilliant 5 neu 6

% Cyfnod Allweddol 2 - Lefel 4 neu 5

#### Cyfnod Sylfaen

Bl 2- Deilliant 5+ a 6+	2018 (9 plentyn, 1 plentyn- 11.1%)				2018	2019	2020
	Targed D5+	Canlyniad D5+	Targed D6+	Canlyniad D6+	Targedau D5+ i'r Dyfodol		
Dangosydd Cyfnod Sylfaen	100%	100%			100%	81.8%	100%
Sgiliau Iaith a Llythrennedd Cymraeg	100%	100%	55.6%	66.7%	100%	81.8%	100%
Datblygiad Mathemategol	100%	100%	66.7%	66.7%	100%	81.8%	100%
Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol	100%	100%	100%	100%	100%	90.9%	100%

#### Cyfnod Allweddol 2

Bl6- Lefel 4+ a 5+	2017 (11 plentyn, 1 plentyn - 9.1%)				2018	2019	2020
	Targed L4+	Canlyniad L4+	Targed L5+	Canlyniad L5+	Targedau L4+ i'r Dyfodol		
Dangosydd Pynciau Craidd	100%	90%			88.9%	80%	88.9%
Cymraeg	100%	90%	50%	50%	88.9%	80%	88.9%
Saesneg	100%	90%	40%	40%	88.9%	80%	88.9%
Mathemateg	100%	100%	50%	50%	88.9%	100%	94.4%
Gwyddoniaeth	100%	100%	50%	50%	88.9%	100%	94.4%

### **CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL**

Cyd-weithiodd yr ysgol gydag ysgolion y dalgylch a thu hwnt mewn gweithgareddau cwricwlaidd ac allgwricwlaidd megis gweithgareddau chwaraeon a chlybiau dalgylch.

Trefnwyd amrywiol ymweliadau yn ystod y flwyddyn megis cystadlaethau chwaraeon, ymweliad â: Plas Glyn y Weddw, Plas Menai, Glanllyn, Caerdydd, Sioe Nadolig Cyw, cystadleuaeth Codio Coleg Meirion Dwyfor ac Amgueddfa Lechi Llanberis.

Ymwelodd nifer o unigolion ac arbenigwyr â'r ysgol megis ein plismon ysgol PC Owen, gweithdy NSPCC, Catrin Williams (gweithdy celf), Myddin ap Dafydd a Meirion McIntyre Huws (gweithdai barddoniaeth), Robin Williams (tgch), Sian Beca, Martin Thomas (drama), Huw Aaron (gweithdy creu cartŵnau), Shari Pollit (gweithdy dawns) Lori Ni, Swyddog Ailgylchu, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Nia o Goleg y Bala, y Ficer lleol Andrew Jones, drama Cwmni'r Frân Wen,

Cefnogom elusennau, cymdeithasau a busnesau lleol e.e Plant Mewn Angen, Marie Curie, British Heart Foundation, MacMillan, Cynllun Gwên, T4U, Trwynau Cochion, yr Ymddiriedolaeth Genendlaethol a Diwrnod y Llyfr.

Daeth disgyblion Ysgol Botwnnog, Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai ar brofiad gwaith. Credwn ei bod yn bwysig fod y plant yn cael amrywiol brofiadau ar ac oddi ar dir yr ysgol ac yn creu cyswllt gydag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd er mwyn cyfoethogi eu haddysg. Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yngadroddiadau'r pennaeth a chofnodion llawn y llywodraethwyr, sydd ar gael o'r ysgol

### **CYFRANOGIAD PLANT**

Mae plant yr ysgol yn cael cyfrannu eu syniadau i fywyd a threfn yr ysgol drwy amrywiol ffyrdd, trafodaethau, holiaduron, Cyngor Ysgol, Grŵp Gwyrdd, Grŵp Iach, Swyddogion Diegelwch am byddant yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr yn achlysurol.

Rhai o'r cyfraniadau a wnaethont yn 2017-18 oedd trefnu gweithgareddau i godi arian at achosion da, trefnu a chynnal gemau amser chwarae a chlybiau ôl-ysgol. Mae Gwefan a chyfrif Facebook yr ysgol yn gofnod gwych o hyn.

Mae'r plant hefyd yn cyfrannu i gynllunio gwaith y dosbarth drwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent eu dysgu a syniadau am sut y gellir gwneud hynny.

### **BWYTA'N IACH**

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau diweddaraf y Llywodraeth ynglŷn â Byw'n Iach. Annogir plant i brynu ffrwyth o'n siop ffrwythau neu ddod â ffrwyth hefo nhw o gartref i'w fwyta ganol y bore. Caiff y plant yfed dŵr a'r ffynnon ddŵr unrhyw adeg o'r dydd. Ni chaniateir bywd a diodydd sydd ddim yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth.

### **NODAU A CHYFLAWNIADAU CHWARAEON**

Mae'r disgyblion yn elwa o nifer o weithgareddau chwaraeon a gwneir defnydd o'r iard, y cae chwarae, y Neuadd, Canolfan Hamdden Dwyfor a Chlwb Chwaraeon Pwllheli ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a chwaraeon. Cafwyd llwyddiant mewn gweithgareddau dalgylch a thu hwnt. Miss Catrin Evans oedd ein cyd-gysylltydd Addysg Gorfforol yr ysgol ac mae darpariaeth eang yn cael ei gynnig i'r plant o fewn yr ysgol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6.

'Rydym yn defnyddio'r ganolfan hamdden i ddatblygu sgiliau nofio a bu nifer o'r plant yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Gala Nofio Dwyfor. Rhown fri ar ddysgu plant i nofio yn ifanc (gan ein bod yn byw mor agos at y môr) ac o ganlyniad cyflwynwn wersi nofio o'r dosbarth Derbyn ymlaen. Defnyddir y ganolfan hamdden hefyd i ddatblygu sgiliau pêl, tenis, beicio, gymnasteg a dawns.

Aeth plant blynyddoedd 3 a 4 a plant blynyddoedd 5 a 6 ar gyrsiau preswyl i wneud gweithgareddau antur yng Nglan-llyn a Phlas Menai. Mae'r ysgol wedi cynnig clwb Campau'r Ddraig ôl-ysgol a chynhelir Clwb Dal i Fynd yn yr ysgol. Cynhaliwyd cystadlaethau Rygbi, Hoci, Criced, Pêl rwyd ac Athletau sirol a dalgylchol ar gyfer plant ym mlwyddyn 3,4,5 a 6. Cynhelir Clwb Gymnasteg yn Ysgol Botwnnog gan athrawes yr ysgol ac fe'i mynychwyd gan nifer o ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hybu'r lluo glybiau chwaraeon lleol gan gynnwys rhai a gynhelir gan ysgolion y dalgylch ac mae unigolion o'r clybiau yn dod i'r ysgol i gynng sesiynau blasu.

### **DIWEDDGLO**

Hoffai'r Corff Llywodraethol a'r staff ddiolch yn fawr iawn am gymorth parod y rhieni gyda phob trefniant yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cyfeillion yn cyfrannu yn helaeth at fywyd yr ysgol drwy drefnu digwyddiadau i godi arian ac mae pob plentyn yn yr ysgol yn elwa o hyn. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y berthynas iach sydd rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned.

### **DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2018-19**

Tymor yr Hydref: 3 Medi - 21 Rhagfyr 2018  
Tymor y Gwanwyn: 7 Ionawr - 12 Ebrill 2019  
Tymor yr Haf: 29 Ebrill - 22 Gorffennaf 2019

### **DYDDIADAU GWYLIAU**

29 Hydref-2 Tachwedd (Hanner tymor)  
24 Rhagfyr - 4 Ionawr (Gwyliau'r Nadolig)  
25 Chwefror - 1 Mawrth (Hanner tymor)  
15-26 Ebrill (Gwyliau'r Pasg)  
6 Mai (Calan Mai)  
27-31 Mai- 1 (Hanner tymor)  
23 Gorffennaf - 31 Awst 2018 (Gwyliau'r Haf)

Bydd 5 diwrnod o hyfforddiant staff yn ychwanegol i'r uchod: 3/9/18, 4/3/19, 29/4/19, 14/6/19, 22/7/19